

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cytundebau rhyngwladol

Cytundebau a ystyriwyd ar
4 Rhagfyr 2023

Ionawr 2024



1. Y cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.
3. Mae'r Pwyllgor yn trafod yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
4. Wrth drafod cytundeb rhyngwladol rydym yn ystyried y canlynol:
 - a yw'n ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 4 Rhagfyr 2023¹, fe wnaethom ystyried pum cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:
 - Cadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol Ardaloedd y tu hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol ("cytundeb BBNJ")
 - Cydnabyddiaeth Gilyddol y DU a Phortiwgal at Ddibenion Gyrru a Chyfnewid Trwyddedau
 - Ennill Arian drwy Gyflogaeth rhwng y DU a Gwlad Belg Aelodau Penodol o'r Teulu a Gyflogir mewn Cenhadaeth Ddiplomyyddol a Swyddi Consylaidd
 - Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Georgia
 - Protocol ar Weddillion Ffrwydrod Rhyfel i'r Confensiwn ar Waharddiadau neu Gyfyngiadau ar Ddefnyddio Arfau Confensiynol Penodol y gellir eu hystyried yn Ormodol Niweidiol neu gael Effeithiau Anwahaniaethol

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Rhagfyr 2023

6. Fe wnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas â thri o'r cytundebau. Mae manylion pob un o'r cytundebau a'n camau gweithredu priodol wedi'u nodi isod.

7. Fe wnaethom hefyd drafod a nodi gohebiaeth ynghylch cytundebau rhyngwladol yr ydym wedi'u trafod o'r blaen.

2. Cytundebau y mae angen gweithredu pellach yn eu cylch

Cadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol Ardaloedd y tu hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol (“cytundeb BBNJ”)

- 8.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 20 Medi 2023. Y dyddiad cau ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 30 Tachwedd 2023.
- 9.** Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cadwraeth a defnydd cynaliadwy o amrywiaeth fiolegol forol ardaloedd y tu hwnt i awdurdodaeth genedlaethol (y "moroedd mawr"), drwy weithredu darpariaethau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr a chydweithrediad rhyngwladol effeithiol.
- 10.** Mae'r cytundeb yn cynnwys nifer o nodweddion i gefnogi bioamrywiaeth, gan gynnwys mecanwaith i sefydlu Offer Rheoli Seiliedig ar Ardal (ABMTs) a rhwymedigaethau newydd i rannu manteision gwaith ymchwil i Adnoddau Genetig Morol (MGRs) a'u defnyddio.
- 11.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd angen arian cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys cefnogi'r sefydliadau a sefydlwyd gan y cytundeb, i gefnogi cyfraniadau blynyddol gan wledydd datblygedig o dan ddarpariaethau'r Adnoddau Genetig Morol, ac i swyddogion y DU fynd i gyfarfodydd cyfnodol.²
- 12.** Mewn perthynas â gweithredu, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“The Foreign, Commonwealth and Development Office is working closely with Defra and other UK Government departments and the Devolved Administrations to consider legislative measures necessary to comply with the new obligations under the Agreement. While further due diligence work continues with Departments on necessary measures to

² [Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: Agreement under the United Nations Convention on the Law of the Sea on the Conservation and Sustainable Use of Marine Biological Diversity of Areas Beyond National Jurisdiction](#), Hydref 2023, paragraff 7 (*Saesneg yn unig*)

implement the Agreement, it is assessed that this will require primary legislation.”³

13. Er bod materion tramor a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, fel y darperir gan baragraff 10 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (“Deddf 2006”), nid yw dilyn a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl.

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan:

“This Treaty relates to fisheries, marine, and environmental policy which are matters devolved to Scotland, Northern Ireland and Wales.”⁴

15. Mewn perthynas ag ymgysylltu rhynglywodraethol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau:

- bod y llywodraethau datganoledig wedi cael diweddariad cyn pob cylch negodi;
- yr ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ar ôl cwblhau'r trafodaethau;
- bod y llywodraethau datganoledig wedi cael y testun drafft a chrynodeb o'r cytundeb cyn llofnodi;
- y gofynnwyd i'r llywodraethau datganoledig ystyried beth fydd goblygiadau'r cytundeb iddynt, gan gynnwys a oes angen gweithredu rhwymedigaeth drwy brosesau a deddfwriaeth ddatganoledig, neu y gellir ei gweithredu gan ddeddfwriaeth y DU; a
- y gofynnwyd i'r llywodraethau datganoledig ystyried pa adrannau Llywodraeth y DU y bydd angen iddynt weithio'n agos â nhw, sut y gellir gwneud endidau cyhoeddus a phreifat yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau o dan y cytundeb a pha rai all eu gweithredu, a chysylltiadau allweddol ar gyfer gwaith wrth symud ymlaen.⁵

16. Fe wnaethom gytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am:

³ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5

⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

⁵ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

- ei barn ynghylch y broses o roi diweddariad ac ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddatblygiad y cytundeb;
- diweddariad ar ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r cytundeb; a
- gwybodaeth am unrhyw waith rhynglywodraethol sy'n digwydd, neu sydd ar y gweill, i weithredu'r cytundeb, yn ogystal â chadarnhau pa strwythurau rhynglywodraethol presennol sy'n cael eu defnyddio.

17. Fe wnaethom gytuno hefyd i dynnu'r cytundeb i sylw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a rhannu ymateb Llywodraeth Cymru â'r Pwyllgor, pan ddaw i law.

Cydnabyddiaeth Gilyddol y DU a Phortiwgal at Ddibenion Gyrru a Chyfnawid Trwyddedau

18. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 16 Hydref 2023. Y dyddiad cau ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 30 Tachwedd 2023.

19. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru at ddibenion gyrru a chyfnawid trwyddedau yn y DU a Phortiwgal. Mae'r cytundeb yn rychwantu Gibraltar.

20. Yn flaenorol, darparwyd cydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru drwy gyfraith yr Undeb Ewropeaidd pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Er bod y DU yn rhan o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig, sy'n llywodraethu'r gydnabyddiaeth gilyddol o ran trwyddedau gyrru, mae'r confensiynau hyn yn gymwys i ymweliadau dros dro yn unig, ac nid i drefniadau preswyllo.

21. Roedd trefniadau dros dro yn caniatáu i yrwyr y DU ddefnyddio eu trwyddedau gyrru'r DU ym Mhortiwgal tan iddynt ddod i ben, fodd bynnag, daeth y trefniant hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

22. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau y bydd y cytundeb deul hwn yn rhoi'r hawl i ddeiliaid trwydded y DU sydd eisoes yn preswyllo ym Mhortiwgal, neu a ddaw yn breswylwyr yno yn y dyfodol, gyfnawid eu trwydded

yrru ar gyfer y DU heb fod angen sefyll prawf gyrru ymarferol neu brawf theori pellach (ac i'r gwrthwyneb).⁶

23. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth i roi'r cytundeb hwn ar waith.⁷

24. Mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau ei bod wedi ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ac wedi rhannu testun drafft y cytundeb cyn cytuno arno. Cafodd y sylwadau a ddaeth gan y llywodraethau datganoledig eu hystyried a'u hadlewyrchu yn null gweithredu'r Llywodraeth.⁸ Nodwn fod y dull hwn yn adlewyrchu ymgysylltiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chytundebau tebyg â'r Eidal a Sbaen a drafodwyd gennym o'r blaen.

25. Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â thrwyddedu gyrrwyr, sy'n fater a gedwir yn ôl, fel y darperir gan baragraff 106 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

26. Fe wnaethom gytuno i dynnu sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y cytundeb, er mwyn llywio ei waith o fonitro hawliau dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru ar ôl Brexit.

Ennill Arian drwy Gyflogaeth rhwng y DU a Gwlad Belg Aelodau Penodol o'r Teulu a Gyflogir mewn Cenhadaeth Ddiplomyddol a Swyddi Consylaidd

27. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 23 Tachwedd 2023. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 17 Ionawr 2024.

28. Nod y cytundeb hwn yw caniatáu i aelodau'r teulu (priod, partneriaid neu blant) y rhai a gyflogir gan y DU mewn cenadaethau diplomyddol, swyddi consylaidd neu sefydliadau rhyngwladol ymgymryd â galwedigaeth gyflogedig y tu allan i'r genhadaeth yng Ngwlad Belg (ac i'r gwrthwyneb).

29. Heb y cytundeb, ni fyddai aelodau teulu diplomyddol Prydain yn gallu ymgymryd â galwedigaeth gyflogedig y tu allan i'r genhadaeth ddiplomyddol tra'n cynnal eu statws diplomyddol. Felly, bydd y cytundeb yn lleddfu symudedd staff i Genadaethau y DU yng Ngwlad Belg, trwy ddarparu'n well ar gyfer anghenion diplomyddion a'u teuluoedd.

⁶ Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: UK/Portugal: Agreement on Mutual Recognition for the Purpose of Driving and Exchange of Driving Licences, Hydref 2023, paragraff 3.6 (Saesneg yn unig)

⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.1

⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.3

30. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth i roi'r cytundeb hwn ar waith.⁹

31. Mae materion tramor a pholisi cyflogaeth o fewn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ("FCDO") a'r gwasanaeth sifil yn faterion a gedwir yn ôl, fel y darperir gan baragraffau 5 a 10 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae maes cyflogaeth hefyd wedi'i gadw'n benodol gan Adran H1 o Atodlen 7A, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig.

32. Fodd bynnag, mae cysylltiadau diplomyddol a chonsylaidd yn dod o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli 2012 rhwng Llywodraeth y DU, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon.¹⁰

33. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan:

"The policy content of this Agreement relates to foreign affairs, relating to employment rights in the receiving State. These relate fully to a reserved matter, with potential implications for the Devolved Administrations. The UK Government has consulted the Devolved Administrations on the drafting of this Agreement and has informed the Devolved Administrations of progress throughout the process."¹¹

34. Felly, rydym o'r farn y gallai'r cytundeb hwn fod yn berthnasol i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio o fewn swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru y rhoddi statws ddiplomyddol iddynt. Mae swyddfa dramor Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn un o'i 21 swyddfa ryngwladol ar draws 12 gwlad.¹²

35. Nodwn fod dull Llywodraeth y DU o ymgynghori mewn perthynas â'r cytundeb hwn yn wahanol i'r hyn a gymerwyd mewn perthynas â chytundeb tebyg blaenorol rhwng y DU a Phortiwgal, lle roedd y Memorandwm Esboniadol yn datgan nad oedd unrhyw oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig, ac ni ymgynghorwyd â hwy.

⁹ [Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: UK/Belgium: Agreement on the Gainful Occupation of Certain Family Members of the Personnel of the Diplomatic Missions and Consular Posts](#), Tachwedd 2023, paragraff 5 (*Saesneg yn unig*)

¹⁰ Llywodraeth y DU, [Devolution: memorandum of understanding and supplementary agreement](#), Medi 2012 (*Saesneg yn unig*)

¹¹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

¹² Llywodraeth Cymru, [Swyddfeydd rhyngwladol](#)

36. Gan y gallai'r cytundeb effeithio ar gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn ei swyddfa ym Mrwsel, fe wnaethom gytuno i dynnu'r cytundeb i sylw'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Georgia

37. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn ar 15 Tachwedd 2023. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 10 Ionawr 2024.

38. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer parhad gwasanaethau awyr rhwng y DU a Georgia ar ôl Brexit, gan gynnwys gwasanaethau rheolaidd diderfyn, diogelwch, diogelwch wrth hedfan, tollau tramor a thaliadau a materion eraill.

39. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd i roi'r cytundeb hwn ar waith.¹³

40. Mae'r cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gan gynnwys hedfan, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir gan baragraff 125 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

41. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig,

"... it impacts upon air services between the Devolved Administrations and Georgia, and the Devolved Administrations have been kept aware of the programme to transition EU negotiated air services agreements and no concerns were raised."¹⁴

42. Bydd y cytundeb yn effeithio ar wasanaethau awyr rhwng Cymru a Georgia. Felly, fe wnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth, gan groesawu'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r rhaglen bontio o gytundebau gwasanaethau awyr a negodwyd gan yr UE fel rhan o'i hystyriaeth o rôl a chyfranogiad Llywodraeth Cymru yng nghytundebau rhyngwladol y DU.

¹³ Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: UK/Georgia: Agreement concerning Air Services, Tachwedd 2023, paragraff 5.1 (*Saesneg yn unig*)

¹⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

Protocol ar Weddillion Ffrwydrol Rhyfel i'r Confensiwn ar Waharddiadau neu Gyfyngiadau ar Ddefnyddio Arfau Confensiynol Penodol y gellir eu hystyried yn Ormodol Niweidiol neu gael Effeithiau Anwahaniaethol

- 43.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 14 Tachwedd 2023. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 9 Ionawr 2024.
- 44.** Mae'r Protocol hwn (Protocol V) yn un o bum protocol yn y Confensiwn ar Waharddiadau neu Gyfyngiadau ar Ddefnyddio Arfau Confensiynol Penodol y gellir eu hystyried yn Ormodol Niweidiol neu gael Effeithiau Anwahaniaethol, sy'n rheoleiddio gwahanol fathau o arf confensiynol.
- 45.** Mae'r DU eisoes yn rhan o Brocolau I-IV (Protocol I ar Ddarnau Na Ellir eu Canfod; Protocol II ar Ffrwydron, Maglau Ffŵl a Dyfeisiau Eraill; Protocol III ar Arfau Cyneuol; Protocol IV ar Arfau Laser Digon i Ddallu)
- 46.** Mae Protocol V yn ymwneud â phroblemau dyngarol sy'n dilyn gwrthdaro, a achosir gan weddillion ffrwydron rhyfel, ac mae'n mynd i'r afael â mesurau ôl-wrthdaro sy'n anelu at leihau digwyddiadau, effeithiau a risgiau gweddillion ffrwydron rhyfel. Mae'n gosod dyletswydd ar ei bartion i ysgwyddo cyfrifoldeb mewn perthynas â gweddillion ffrwydron rhyfel mewn tiriogaeth o dan eu rheolaeth, er enghraifft, drwy nodi, clirio, gwaredu neu ddinistrio gweddillion ffrwydrol rhyfel.
- 47.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at unrhyw ymgynghoriad â'r llywodraethau datganoledig, gan nodi'n unig fod cynnwys polisi'r Cytuniad hwn yn ymwneud yn llawn â materion a gedwir yn ôl.¹⁵
- 48.** Gan fod y cytundeb hwn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gan gynnwys rheoli arfau, fel y darperir gan baragraff 188 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006 ac amddiffyn, fel y darperir gan baragraff 11 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006, fe wnaethom gytuno i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

¹⁵ Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: Protocol on Explosive Remnants of War to the Convention on Prohibitions or Restrictions on the Use of Certain Conventional Weapons which may be deemed to be Excessively Injurious or to have Indiscriminate Effects (Protocol V), Tachwedd 2023, paragraff 10

4. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a drafodwyd yn flaenorol

Confensiwn ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol rhwng y DU, Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ

49. Yn dilyn ein cyfarfod ar 11 Medi 2023¹⁶, fe wnaethom gytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru¹⁷ i ofyn am ragor o wybodaeth am ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chonfensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y cytundeb yn cael ei weithredu mewn meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

50. Mae'r Confensiwn hwn yn darparu ar gyfer cydgysylltu nawdd cymdeithasol yn barhaus rhwng y DU (ac eithrio Gibraltar a Dibynwledydd y Goron) a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a/neu Norwy ar ôl Brexit.

51. Ar 16 Hydref 2023, ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol¹⁸, yn cadarnhau yr ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru, a'i bod wedi gwneud sylwadau ar gynnwys y cytundeb hwn a'r Confensiwn blaenorol, tebyg rhwng y DU a'r Swistir. Mae'r Gweinidog yn datgan hefyd bod Llywodraeth y DU wedi rhoi diweddariad am y cynnydd o ran negodi'r Confensiwn gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys asesiadau o effeithiau posibl a diweddariadau ar amseru.

52. Mae'r Gweinidog yn cadarnhau y bydd y Confensiwn hwn yn dod i rym cyn diwedd 2023 o ran Gwlad yr Iâ a Liechtenstein, ac yn gynnwys yn 2024 o ran Norwy.

53. Mae'r Gweinidog hefyd yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru, cyn i'r Confensiwn ddod i rym, yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 i ychwanegu Gwlad yr Iâ a Liechtenstein i'r gwledydd sy'n dod o dan y Rheoliadau hynny. Ynghyd â'r rheoliadau diwygio, a

¹⁶ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 11 Medi 2023

¹⁷ [Llythyr at y Prif Weinidog gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 29 Medi 2023

¹⁸ [Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 16 Hydref 2023 (*Saesneg yn unig*)

osodwyd ar 8 Rhagfyr 2023, cafwyd asesiad effaith gan gynnwys effaith ddisgwyliedig y Confensiwn ar y GIG yng Nghymru.¹⁹

54. Daw'r Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

*"All relevant Welsh Government guidance documents and NHS websites will also be updated to reflect the new arrangements with the three countries. Welsh Government officials have informed the Local Health Boards of the signing and provisions of the Convention and will further update once the coming into force date is known."*²⁰

55. Fe wnaethom ystyried a nodi'r ymateb hwn yn ein cyfarfod ar 23 Hydref 2023²¹.

Protocol yn diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Tiwna yr Iwerydd ("Protocol Palma")

56. Yn dilyn ein cyfarfod ar 11 Medi 2023²² fe wnaethom gytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Phrotocol Palma, sy'n diwygio cwmpas y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Tiwna yr Iwerydd i gwmpasu siarcod ac elasmobranciaid eraill sy'n gefnforol, pelagig, a mudol iawn a geir yng Nghefnfor yr Iwerydd.

57. Ar 29 Medi 2023, fe wnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog²³ yn gofyn am ragor o wybodaeth am faterion yn cynnwys yr ymgysylltu rhynglywodraethol a ddigwyddodd mewn perthynas â'r Protocol a'r trefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu argymhellion Comisiwn y Protocol mewn meysydd datganoledig.

58. Yn ei ymateb, mae'r Prif Weinidog yn datgan bod y Protocol yn destun trafodaethau ar lefel swyddogol cyn i gyngor cyfreithiol ddod i law a ddaeth i'r

¹⁹ Senedd Cymru, [SI\(6\)429 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Ffioedd Ymwelwyr Tramor\) \(Diwygio\) \(Rhif 3\) \(Cymru\) 2023](#)

²⁰ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023

²¹ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 23 Hydref 2023

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Medi 2023

²³ [Llythyr at y Prif Weinidog gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 29 Medi 2023

casgliad bod y gwelliannau "yn peri ychydig iawn o bryder i'r DU neu ddim o gwbl".²⁴

59. Mae'r Prif Weinidog yn cadarnhau:

*"Fel parti contractio i ICCAT, mae'n ofynnol i'r DU ddeddfu deddfwriaeth i roi effaith i weithrediad domestig y Confensiwn. Cafodd rhai adrannau o deddfwriaeth yr UE eu cadw wrth i'r DU ymadael â'r UE yn hyn o beth. Mae swyddogion yn ein Hisadran Pysgodfeydd yn gyfrifol am fonitro, arsylwi a gweithredu rheoliadau o'r fath."*²⁵

60. Mae'r Prif Weinidog hefyd yn cadarnhau nad oes camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd ar unwaith i weithredu'r Protocol.

61. Fe wnaethom ystyried a nodi'r ymateb hwn yn ein cyfarfod ar 6 Tachwedd 2023²⁶.

²⁴ Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Hydref 2023

²⁵ Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Hydref 2023

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Tachwedd 2023